The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

**Cais gan Liverpool Bay CCS Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw piblinell carbon deuocsid ($CO_2$) danddaear newydd o Swydd Gaer yn Lloegr i Sir y Fflint yng Nghymru, gyda'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer ei gweithredu, gan gynnwys Gosodiadau ar Ben y Tir (AGI) a Gorsafoedd Falfiau Bloc (BVS) a datblygiad arall cysylltiedig. Amlinellir elfennau'r datblygiad arfaethedig hwn yn fanylach isod:**

- **Piblinell AGI Ince i AGI Stanlow – rhan tua 4 km o biblinell danddaear ar y tir (20" o ddiamedr) gyda chapasiti o hyd at 2.5 miliwn o dunelli o garbon deuocsid y flwyddyn ($MtCO_2$/y flwyddyn) ar bwysedd o oddeutu 38 mesurydd bar (barg) i gludo $CO_2$.**

- **Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint – rhan tua 32 km o biblinell danddaear ar y tir (36" o ddiamedr) gyda chapasiti o hyd at 10 $MtCO_2$/y flwyddyn ar bwysedd o oddeutu 35 barg i gludo $CO_2$.**

- **Piblinell Gysylltu AGI y Fflint i'r Fflint – rhan tua 400m o biblinell gysylltu danddaear ar y tir (24" o ddiamedr) gyda chapasiti o hyd at 4.5 $MtCO_2$/y flwyddyn ar bwysedd o oddeutu 33 barg i gludo $CO_2$.**

- **Piblinell y Fflint i Derfynell y Parlwr Du (PoA) - rhan tua 24 km o biblinell danddaear bresennol ar y tir (24" o ddiamedr) rhwng Cei Connah a Therfynell PoA sy'n cludo nwy naturiol ar hyn o bryd ond a fyddai'n cael ei haddasu at ddiben arall a'i hailddefnyddio i gludo $CO_2$. Cyfeirir at y rhan hon o Biblinell Cei Connah i PoA yn ES yr Ymgeisydd fel Piblinell Cysylltu'r Fflint â Therfynell PoA. Bydd gwaith adeiladu ar hyd Piblinell Cysylltu'r Fflint â Therfynell PoA wedi'i gyfyngu i waith sy'n gysylltiedig â'i chysylltu â:**

  - **Phiblinell Gysylltu AGI y Fflint i'r Fflint;**
  - **Y tair BVS trwy osod rhannau bach o biblinell gysylltu; a**
  - **Therfynell PoA (yn amodol ar gymeradwyaeth Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd)).**

- **Pedair AGI – AGI Ince, AGI Stanlow, AGI Northop Hall ac AGI y Fflint**

- **Chwe BVS – wedi'u lleoli ar hyd:**

- **Piblinell AGI Stanlow i AGI y Fflint; a**
- **Phiblinell Cysylltu'r Fflint â Therfynell PoA.**

**Cofnod yr Awdurdod Archwilio (ExA) o'r Archwiliad Safle Digwmni (USI) a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2023.**

Cynhaliodd yr ExA yr archwiliad mewn car ac ar droed ar ffyrdd cyhoeddus a hawliau tramwy cyhoeddus (PRoW). Cynlluniwyd y llwybrau gan ystyried Datganiad Amgylcheddol (ES) yr ymgeisydd ac roeddent wedi galluogi'r ExA i weld safle'r cais a'r ardaloedd amgylchynol. Mae'r amseriadau'n fras.

Mae lleoliadau'r golygfannau (VP) fel y'u nodir ar Ddogfen y Cais o'r enw 'Cynllun Golygfannau' Diwygiad B (a gynhwysir yn yr ES (Cyfrol IV, Ffigur 12.3)) [CR1-084]. Nodwyd lleoliadau asedau treftadaeth dynodedig a heb eu dynodi ar hyd y llwybr, fel y'u manylir yn yr ES (Cyfrol IV, Ffigur 8.1 – Asedau Treftadaeth Dynodedig [APP-200] a Chyfrol IV, Ffigur 8.2 – Asedau Treftadaeth Heb eu Dynodi [APP-201]). Nodwyd Lleoliadau'r Arolwg Sŵn Amgylcheddol a Chyfyngiadau Sŵn (ES, Cyfrol IV, Ffigur 15.1) [APP-208], Lefelau Sŵn Adeiladu Rhagfynedig (ES, Cyfrol IV, Ffigur 15.2) [CR1-087] a Maint Effeithiau Sŵn Adeiladu (ES, Cyfrol IV, Ffigur 15.3) [CR1-088] ar hyd y llwybr hefyd.

| Dyddiad | Amser | VP | Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| **USI 3** | | | | |
| 09/06/2023 | 9.00AM | - | Sych, heulog, dim cymylau, gweledd clir. | Dechreuwyd yr USI o Barc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3YB a gyrrwyd i Green Lane, Ewlo, CH5 3BP i weld Rhifau Lleiniau 18-21 i 18-29 (yn gynwysedig) a 18-31 i 18-33 (yn gynwysedig) y Llyfr Cyfeirio (BoR) [REP3-014]/ Cynlluniau Tir (LP) [REP2-004], gan nodi Hawliau Tramwy Cyhoeddus (PRoW) 303/143 a 303/141. Trowyd y cerbyd o gwmpas, gan ddychwelyd ar hyd Green Lane. |
| 09/06/2023 | 9.10AM | P3 | Sych, heulog, dim cymylau, gweledd clir. | Gadawyd Green Lane, Ewlo a chyrhaeddwyd Holywell Road (B5125), Ewlo, CH5 3BS i weld Rhifau Lleiniau 18-13, 18-14, 18-19 a 18-20 y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004], gan nodi PRoW 303/143, 303-21 (gyferbyn â 303/143 trwy ffordd) a 303/20. Trowyd y cerbyd o gwmpas a dychwelwyd ar hyd Holywell Road i Shotton Lane, Ewlo. |

| Dyddiad | Amser | VP | Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| 09/06/2023 | 9.15AM | - | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Trowyd i ymuno â Shotton Lane, Ewlo a theithiwyd ar hyd y lôn yn edrych ar Rifau Lleiniau 18-12, 18-08, 18-05 (a Rhifau Lleiniau y tu hwnt (18-06 a 18-10) sydd i'w gweld yn glir o'r briffordd gyhoeddus), 18-03, 18-02 a 17-44 y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004]. Gadawyd Shotton Lane i ymuno ag Aston Park Road, Shotton Uchaf a theithiwyd tuag at Elton Green a Thornton-le-Moors. |
| 09/06/2023 | 9.35AM | EAGI9 | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Cyrhaeddwyd yr A5117 Elton Green/ Thornton-le-Moors. Teithiwyd ar hyd Poole Lane, Thornton-le Moors ac arhoswyd i edrych ar Rifau Lleiniau 3-13, 3-14, 3-15, 3-16, 3-18 a 3-18a y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004] a thir y tu hwnt iddynt; gan nodi PRoW 294/FP2/1, sy'n caniatáu golygfeydd o Rifau Lleiniau 3-18, 3-18a a 4-15 i 4-19 (yn gynwysedig). |
| 09/06/2023 | 9.45AM | - | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Gadawyd Poole Lane, Thornton-le Moors a theithiwyd i Ince Lane, Caer i edrych ar BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004]: Rhifau Lleiniau 5-01 i 5-05 (yn gynwysedig) a 4-20 cyn croesi'r M56; Rhif Llain 5-06 o'r bont sy'n croesi'r M56; Rhifau Lleiniau 5-06, 5-07 5-09 a 5-10 ar ôl croesi'r M56; yn ogystal â Llain Rhif 5-08 o'r B5132 (Cryers Lane, Wimbolds Trafford, Caer, CH2 4JP). |
| 09/06/2023 | 10.00AM | - | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Teithiwyd tua'r gogledd ar hyd y B5132 (Cryers Lane), yn ôl dros yr M56 i'r man lle mae'r ceblau trydan foltedd uchel yn croesi'r ffordd, wedi'u dal ynghrog gan beilonau ar bob ochr i'r ffordd. Gwelwyd Rhifau Lleiniau 4-06 i 4-14 (yn gynwysedig) y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004], ynghyd â chwrs dŵr sy'n mynd o dan Bont Cryers yn y man hwn. |
| 09/06/2023 | 10.15AM | P12A | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Teithiwyd i Station Road, Backford, CH2 4JP gan nodi Rhifau Lleiniau 9-22, 10-01 a 10-02 y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004]. Mae gwaith ffordd wedi'i leoli ar hyd y rhan hon o'r ffordd, a reolir gan oleuadau traffig i ganiatáu i draffig lifo i un cyfeiriad ar y tro. Gyrrwyd trwodd yn araf gan nodi'r lleiniau a grybwyllwyd uchod. |

| Dyddiad | Amser | VP | Tywydd | Lleoliad / Llwybr |
|---|---|---|---|---|
| 09/06/2023 | 10.18AM | P12 | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Teithiwyd i Fferm Grove, Grove Lane, Mollington, CH1 6LG ac edrychwyd ar Rifau Lleiniau 10-02, 10-04, 10-04a a 10-06 y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004], ar yr un pryd â nodi PRoW 177/FP2/1 a 211/FP4/2 sy'n arwain at 211/FP4/1 wrth ddychwelyd ar hyd Grove Road. |
| 09/06/2023 | 10.25AM | B15 | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Teithiwyd i Townfield Lane/ Overwood Lane, Mollington i edrych ar Rifau Lleiniau 10-09 i 10-19 (yn gynwysedig) y BoR [REP3-014]/ LP [REP2-004], gan nodi PRoW 211/FP7/1 yn ogystal â Rhifau Lleiniau 11-01 i 11-05 (yn gynwysedig). |
| 09/06/2023 | 10.40AM | - | Sych, heulog, dim cymylau, gwelededd clir. | Dychwelwyd i Barc Dewi Sant, Ewlo, CH5 3YB. Gorffennwyd yr USI am 10.40pm |